# Ymchwil Partneriaeth Cymru Affrica: Crynodeb Gweithredol

## Cyd-destun

Mae Dolen Cymru Lesotho yn rhwydwaith o gysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho, ac ymhlith y sefydliadau partner, mae ysgolion, byrddau iechyd, clybiau chwaraeon, sefydliadau eirioli cymunedol, a grwpiau ffydd. Caiff partneriaethau rhwng Cymru a Lesotho eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu perthynas hirdymor ar sail cyfeillgarwch, gan ddefnyddio model partneriaeth cytbwys a dwyffordd. Yn ogystal, mae Dolen wedi llofnodi Siarter Gwrth-Hiliaeth Hub Cymru Africa ac mae'n gweithio tuag at yr amcanion hynny.

Yn 2024, comisiynodd Dolen brosiect ymchwil i ystyried rôl eu model partneriaeth yn datblygu gwaith partneriaeth mwy cydradd ac effeithiol. Ystyriodd yr ymchwil y cwestiynau canlynol:

1. Ydy "model Dolen" yn cyfrannu at waith partneriaeth effeithiol a chydradd, o'i gymharu â modelau eraill? Os felly, sut? ac a oes modd datblygu ymhellach ar yr elfennau sy'n cyfrannu at hyn?
2. Pa oblygiadau o (1) sydd yna i Dolen, gwirfoddolwyr a phartneriaid (e.e. o safbwynt strwythur trefniadaeth, dulliau o ymdrin â gwaith partneriaeth, neu weithgareddau dolenni)?
3. Pa oblygiadau posib o (1) sydd yna i gymuned ehangach Cymru Affrica?
4. Ar gyfer Dolen a chymuned ehangach Cymru Affrica: drwy lens Undod a bwriadon Siarter Gwrth-Hiliaeth Cymru Affrica, pa wersi ellir eu dysgu drwy ymchwilio i effeithiolrwydd gwaith partneriaeth, gan gynnwys model Dolen a modelau tebyg eraill a nodwyd yn y llenyddiaeth? Beth mae modd ei osgoi, ei ddyblygu, neu ei addasu er mwyn cyfrannu at fwy o Undod Byd-eang a rôl Cymru fel cenedl sy'n edrych tuag allan?

## Ymchwil a Chanfyddiadau

Cafodd yr ymchwil ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gynnal gan Dr Elaine Christian, gyda chyfranogwyr dolenni o'r sectorau addysg, iechyd, chwaraeon, a ffydd; yn cynnwys gwirfoddolwyr, staff sefydliadau partner, cyllidwyr, ac aelodau bwrdd a staff Dolen.

Daeth pedair nodwedd i'r amlwg a oedd yn gyffredin rhwng partneriaethau sydd â graddau uwch o gytbwysedd ac ymwneud cydradd, neu â mwy o ymdeimlad, yn ôl eu hadroddiadau eu hunain, o gydraddoldeb ac effeithiolrwydd. Y nodweddion hynny yw:

1. Dwyochredd a chydbwysedd: Ymdeimlad o gydbwysedd o ran teithio, rhaglennu a rolau; niferoedd cyfartal yn fras o ymwelwyr yn teithio i'r ddau gyfeiriad, gweithgareddau tebyg yn cael eu cynnal ym mhob lle, mae'r partneriaid yn rhannu ymdeimlad bod ganddynt gyfraniad tebyg i'w wneud i'r berthynas.
2. Ymwreiddio sefydliadol: Daw'r berthynas yn rhan o hunaniaeth y sefydliad, gydag uwch-swyddogion yn cefnogi'r bartneriaeth a pholisïau ar waith i gefnogi cyfranogiad.

3. Cyfeillgarwch ac ymrwymiad: Cydnabyddiaeth bod y berthynas ei hun o werth, yn haeddu buddsoddiad o ran amser a chyllid.
4. Gwerthuso rheolaidd: Mae'r partneriaid yn gwneud archwilio a gwerthuso iechyd y berthynas yn flaenoriaeth—gan gynnwys ymdrechion tuag at gydraddoldeb—ar gyfnodau rheolaidd.

Mae'r ymchwil yn dangos yn eglur bod y nodweddion hyn wedi'u cydblethu'n dynn a'u bod yn cefnogi ei gilydd; cyfeirir atynt fel y "Pedwar Edefyn" drwy gydol yr adroddiad fel modd o ddeall a dehongli canfyddiadau'r ymchwil. Mae cryfhau un edefyn yn cael effaith gadarnhaol ar y lleill, ac i'r gwrthwyneb, os oes un yn ddiffygiol, gwelir effeithiau niweidiol yn y lleill.

Yn gyffredinol, mae'r ymchwil yn dangos bod:

- "Model Dolen" yn cyfrannu at waith partneriaeth cydradd ac effeithiol. Mae partneriaethau sydd â mwy o ddwyochredd yn fwy tebygol o ddisgrifio eu perthynas fel un gydradd ac effeithiol.
- Roedd mwy o ddwyochredd a chydbwysedd yn gysylltiedig hefyd â datblygiad personol a phroffesiynol, dysgu diwylliannol, goresgyn heriau, a chynyddu ymwybyddiaeth.
- Gellir gweithredu "model Dolen" mewn modd anghyson: gall fod gan rai sefydliadau fwy o gydraddoldeb o ran teithio ond llai o ran rhaglennu neu rolau partneriaid, neu i'r gwrthwyneb.
- Mae ychydig o bartneriaethau yn ymdebygu fwy i'r model "derbyniwr-rhoddwr", er bod y sefydliadau hyn yn tueddu i fod ag ymagwedd fwy cydweithredol a than arweiniad y partner. Mae partneriaid yn Lesotho yn adrodd yn gyson eu bod yn gwerthfawrogi gweithio gyda sefydliadau sy'n aelodau o Dolen am y rheswm hwnnw.
- Mae partneriaid yng Nghymru, mewn ychydig o achosion, wedi gallu cyfrannu at fwy o gydraddoldeb ac effeithiolrwydd drwy herio rhagdybiaethau neu arferion cyllidwyr, e.e. ynglŷn â gofynion adrodd.

## Goblygiadau ac Argymhellion

- Mae angen cefnogaeth barhaus ar sefydliadau partner i gryfhau pob un o'r "pedwar edefyn" a nodwyd. Gallai hynny gynnwys datblygu canllawiau arferion gorau, adnoddau ymarferol, hyfforddiant, ac ati.
- Mae'r berthynas rhwng partneriaid sydd â chysylltiad thematig (h.y. sefydliadau sydd â chylch gorchwyl cymdeithasol tebyg) yn gallu bod yn hynod effeithiol, ac yn fodd o gynyddu cyfranogiad mewn undod byd-eang. Gellir canfod partneriaid newydd, ac annog partneriaid presennol i ddatblygu eu gwaith yn y maes hwn.
- Gellir annog a chefnogi sefydliadau partner gyda ffyrdd ymarferol o ddylanwadu ar y dirwedd cyllido a'i chael i ailgyfeirio ei hun tuag at ddulliau mwy hirdymor o weithio a rhai sy'n seiliedig ar gyfeillgarwch.

Ar gyfer testun llawn yr adroddiad yn Saesneg, gweler http://files.elainechristian.com/Reciprocal-Partnership-Models.pdf.